Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru - Polisi

Teitl: POLISI CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Datganiad Polisi:

1) Mae'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi amrywiaeth unigolion a bydd yn gweithio i sicrhau y caiff yr amrywiaeth yn ein cymdeithas ei adlewyrchu yn ei gweithlu, ymysg ei phreswylwyr ac Aelodau Bwrdd. Mae'n credu fod amrywiaeth yn ychwanegu gwerth i'r Gymdeithas ac yn ei galluogi i ddiwallu ymhellach anghenion yr unigolion a'r cymunedau amrywiol y mae'n eu gwasanaethu.

2) Mae'r Gymdeithas yn anelu i fod yn sefydliad lle caiff amrywiaeth unigolion ei barchu, ei ddathlu a'i annog yn llawn a lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymdreiddio drwy'r Gymdeithas gyfan a'i holl weithgareddau.

3) Mae'n nod gan y Gymdeithas i hyrwyddo amgylchedd a diwylliant cadarnhaol ymysg ei phreswylwyr, staff ac Aelodau Bwrdd lle caiff pawb eu parchu a lle na chaiff neb eu trin yn llai ffafriol os nad oes cyfiawnhad clir am hynny.

4) Bydd y Gymdeithas yn darparu gwasanaethau hygyrch i bawb, heb dueddiad na rhagfarn.

5) Bydd y Gymdeithas yn sicrhau y caiff pawb eu trin yn deg, bod ganddynt fynediad cyfartal i wasanaethau ac na wahaniaethir yn eu herbyn, aflonyddu arnynt na'u herlid ar unrhyw un o'r seiliau dilynol. Bydd yn cymryd camau gweithredu priodol os canfyddir triniaeth lai ffafriol ar unrhyw un o'r seiliau hyn[1].

   a) Hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol;
   b) Rhywedd, hunaniaeth rhywedd neu statws priodasol;
   c) Oedran;
   ch) Cyfeiriadedd rhywiol;
   d) Anabledd;
   dd) Crefydd neu gredo.

6) Mae'r Gymdeithas yn cydnabod bod cyfle cyfartal yn golygu trin pawb yn deg yn seiliedig ar eu hanghenion unigol ac nad yw o reidrwydd yn ymwneud â thrin pawb yr un fath. Bydd yn ceisio gwneud addasiadau rhesymol i'w gweithgareddau i sicrhau y caiff pawb ei drin yn deg, cyn belled ag sy'n ymarferol.

[1] Gelwir y rhain yn aml yn "feysydd cydraddoldeb" neu "nodweddion a warchodir"

<u>Meysydd Perfformiad Allweddol</u>:

A. Bydd y Gymdeithas yn gosod targedau ac yn monitro gwybodaeth yn ymwneud â chyfle cyfartal mewn cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth a rhoddir adroddiad yn flynyddol i'r Bwrdd ar hyn.

B. Caiff y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth presennol ei adolygu'n flynyddol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am dangynrychiolaeth neu'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaeth, yn cynnwys cymryd camau gweithredu cadarnhaol os oes angen hynny.

C. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau fod ei harferion recriwtio a dethol ar gyfer staff ac Aelodau Bwrdd yn deg ac anwahaniaethol. Bydd pob penodiad yn seiliedig ar deilyngdod.

Ch. Bydd pob disgrifiad swydd yn cynnwys goblygiad i gydymffurfio gyda a chefnogi'r polisi hwn fel dyletswydd glir o'r swydd.

D. Bydd yr holl staff yn derbyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth fel rhan o'u rôl. Darperir pob cyfle hyfforddiant arall ar sail tegwch a chydraddoldeb.

Dd. Caiff pob swydd wag barhaol eu hysbysebu'n allanol, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol y medrir eu cyfiawnhau. Cyn belled ag sy'n ymarferol, bydd y Gymdeithas yn hysbysu cymunedau arbenigol[2] am swyddi gwag lle mae'n glir bod tan-gynrychiolaeth.

E. Bydd y Gymdeithas yn sicrhau fod Polisi Cyfle Cyfartal gan yr holl gontractwyr ac ymgynghorwyr y mae'n gweithio â hwy.

Diben:	➢ Sicrhau (cyn belled ag sy'n ymarferol) nad yw'r Gymdeithas yn peri anfantais i unrhyw unigolyn neu sector o'r cymunedau y mae'n ei gwasanaethau. ➢ Sicrhau bod y Gymdeithas yn cyflawni ei goblygiadau statudol a rheoleiddiol. ➢ Ymateb i strategaethau cenedlaethol megis y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Tai (REHAP) 2008-11. ➢ Gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau strategol lleol lle mae hyn yn hyrwyddo egwyddorion cydraddoldeb a thegwch.
Cyfeirnod:	Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (v1) Tachwedd 2008
Dyddiad Cyhoeddi:	Tachwedd 2009
Dyddiad Adolygu:	Tachwedd 2013
Adrannau/Unedau	Pob adran.

[2] "Cymunedau Arbenigol" - Mae hyn yn derm cynhwysfawr a allai gyfeirio at gymuned ffisegol (e.e. grŵp ethnig) neu gymuned rithiol (e.e. grwpiau cefnogaeth hoyw/lesbian).

yr Effeithir Arnynt:		
Cymeradwywyd gan:	Dyddiad Bwrdd ??????	
Swyddog Arweiniol:	Prif Weithredydd	
Cydymffurfiaeth Statudol	1. Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw, 1976 (Diweddarwyd 1986). 2. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 3. Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, 1995 4. Deddf Cyflogau Cyfartal 1970 (Diweddarwyd 1983) 5. Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003 6. Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gredo) 2003 7. Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006.	
Ffactorau Risg Strategol	• Y bydd y Gymdeithas yn methu cynorthwyo'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gartref drwy fethu sicrhau fod ei gwasanaethau yn hygyrch i bawb. • Y bydd y Gymdeithas dan anfantais yn ei phroses recriwtio drwy'n anfwriadol allgau ymgeiswyr a allai fod yn werthfawr. • Y bydd y Gymdeithas yn cael colled ariannol neu anfantais fasnachol arall drwy fethiant i gydymffurfio gyda'i goblygiadau statudol. • Y caiff enw da'r Gymdeithas ei leihau os tybir ei bod yn "annheg". • Y bydd y Gymdeithas yn methu cyflawni isafswm gofynion rheoleiddiol drwy beidio monitro'r gwahanol feysydd cydraddoldeb yn briodol mewn meysydd gweithredu allweddol.	
Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb	*Sut mae/fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion eu cyflawni'n deg yn neilltuol yng nghyswllt hil, rhyw, anabledd ac ati?*	Mae'n gosod y fframwaith polisi ar gyfer y Gymdiethas i sicrhau ei bod yn trin pob sector o'r gymdeithas yn deg.
	A deimlir y gallai'r Polisi hwn gael effaith niweidiol ar wahanol grwpiau. Os felly, beth yw'r cyfiawnhad am hyn ac a oes caniatâd cyfreithiol drosto?	Ni ddisgwylir yr effeithir yn niweidiol ar unrhyw grwpiau neu unigolion.

	A ofynnwyd i unrhyw grwpiau cynrychioladol yn yr ardal am eu barn ac os felly beth oedd y canlyniad?	Na.
Cyswllt Tenantiaid	*Sut mae/sut fydd y polisi hwn yn sicrhau y caiff anghenion tenantiaid eu diwallu?*	Bydd yn helpu i sicrhau fod pob tenant yn derbyn yr un lefel o wasanaeth p'un ai a oes ganddynt unrhyw "nodweddion a warchodir" ai peidio.
	Sut y teimlir y bydd y Polisi yn effeithio ar hawliau a goblygiadau tenantiaid?	
	A ymgynghorwyd â thenantiaid ac a roddwyd ystyriaeth i ganlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wrth ystyried cyflwyno'r Polisi yma?	DO - drwy Grŵp 50 Canolbarth Cymru, a hefyd drwy gynnwys dau gynrychiolydd Tenantiaid ar y Panel Adolygu.